**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (57)**

**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2003**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd Cwestiwn 9.

**2.44pm**
Gohiriwyd y cyfarfod am gyfnod byr gan fod aelodau o'r cyhoedd yn ymddwyn mewn modd aflonyddol

**2.49pm**
**Cynnig o dan Reol Sefydlog 6.9 i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y sefyllfa yn Irac a'r effaith ar Gymru**
Yn dilyn trafodaeth cynigiodd Ieuan Wyn Jones dynnu'r cynnig yn ôl. Cytunodd yr aelodau i beidio â chynnal pleidlais.

**3.01pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.05pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Lywodraeth Agored : Cyflog Cyfartal**

**3.35pm**
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn. Cynhaliwyd pleidlais ar unwaith***
**Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 22.25**
*NDM1399* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**2.**

a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**3.**
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

4.
a. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 11 Mawrth 2003, ac sydd heb nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003;**

b. Yn cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 30
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.37pm**
**Cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Diwygio Rheoliadol ar is-ddirprwyo rheoli tai**
*NDM1400* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Cytundebau Rheoli Tai) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

*Mae cymhwyso'r Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 32
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.41pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd 2003**
*NDM1401* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003.
**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 29
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1402* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2003.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a'r Arfarniad Rheoliadol, y gosodwyd copi o'r ddau ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 30
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.43pm**
**Cynnig i gymeradwyo y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd 2003 o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii)**
*NDM1403* - Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1404* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 27.2 (iii) yn ystyried y Rheoliadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Canolfannau Preswyl i Deuluoedd (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.46pm**
**Dadl ar Gymorth Dewisol Rhanbarthol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad**
*NDM1405* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi'r cymorth cadarn sy'n parhau i gael ei gynnig gan y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad i fuddsoddiad gan gwmnïau, ac yn croesawu'r effaith ar wella economi Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl "gwmnïau" ac ychwanegu "ond yn nodi bod llai na 35% o gyllideb y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol wedi'i dyrannu i gwmnïau cynhenid o Gymru ers mis Ebrill 2001."

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd;
Yn gresynu at y ffaith bod y galw daearyddol am gymorth o dan y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn anghymesur, ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ysgogi prosiectau o ansawdd ym mhob rhan o Gymru.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cytuno i ymchwilio i weld pam mai 28% yn unig o'r gwariant o dan y cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol a gafodd busnesau cynhenid y llynedd, pan fo'r gymhareb cost fesul swydd yn cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod yr angen am strategaeth sy'n targedu cymorth at gwmnïau cynhenid o Gymru sydd â'r potensial i dyfu.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu at y gostyngiad o 41,000 o swyddi net yn y sector gweithgynhyrchu ers mis Tachwedd 1999.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 46
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 44
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 9; Ymatal 7; Yn erbyn 31; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Y cynnig**
O Blaid 31; Ymatal 10;Yn erbyn 7; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.41pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
*NDM1406* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn credu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn fethiant a bod Cymru yn haeddu dechreuad newydd.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu'r geiriau "wedi bod yn fethiant a bod Cymru yn haeddu dechreuad newydd" gan roi'r geiriau a ganlyn yn eu lle:
"wedi dod â manteision datganoli i bobl ledled Cymru drwy lywodraeth sefydlog ac arloesol, a thrwy weithredu'r polisïau a nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu. Gyda'i gilydd, maent wedi gosod y seiliau ar gyfer dyfodol mwy teg a ffyniannus."

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 19; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 31; Ymatal 0;Yn erbyn 18; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35pm

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 19 Mawrth 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 17 Mawrth 2003

Nodyn Esboniadol ar gyfer cynnig i gymeradwyo troglwyddiadau yn ystod y flwyddyn o fewn y Prif Grwpiau Gwariant o dan Reol Sefydlog 19.5 - LD2008

Cyllidebau Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer 2002-03 yn sgil y newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant - Tabl 1 - LD2009

Cyllidebau Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer 2002-03 yn sgil defnyddio Arian a Ddygwyd Ymlaen - Tabl 2 - LD2010

Cyllidebau Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer 2002-03 yn sgil Trosglwyddo i Adrannau'r Llywodraeth, ac oddi wrthynt - Tabl 3

Revised Presiding Office MEG 2002-2003 to 2005-2006 - LD2012 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Horticultural Development Council (Amendment) Order 2003 - LD2013 - *Dim fersiwn electronig na Chymraeg ar gael*

The Apple and Pear Research Council (Dissolution) Order 2003 - LD2014 - *Dim fersiwn electronig na Chymraeg ar gael*

### Dogfennau a Osodwyd ar 13 Mawrth 2003

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio)(Cymru) 2003 - LD2005

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 - LD2006

Welsh Assembly Government Response to the Audit Committee Report 01-03 'General Report on the Financial Audit Work of the AGW 2002' - LD2007 - *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

### Dogfennau a Osodwyd ar 12 Mawrth 2003

Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2004